## Mae Hamdden Sir Ddinbych a Chyngor Tref y Rhyl yn annog teuluoedd i fwynhau Digwyddiadau Nadolig rhad ac am ddim sy'n dod i'r Rhyl

Mae hi’n adeg yna o’r flwyddyn eto, mae Pops Nadolig yn ôl i ddechrau dathliadau’r ŵyl!

Mae'r cyngerdd Nadoligaidd blynyddol yn boblogaidd iawn yn y sir ac AM DDIM i bawb ar ddydd Sul 27 Tachwedd yn Theatr Pafiliwn y Rhyl.

Mae tocynnau am ddim, trwy ffonio Swyddfa Docynnau Pafiliwn y Rhyl a bydd cyfyngiadau o bedwar tocyn i bob cartref.

Mae teyrnged Barry White, Williams Hicks, yr holl ffordd o’r Unol Daleithiau wedi’i gadarnhau fel y prif berfformiwr yng nghyngerdd y Pops Nadolig yn y Rhyl eleni. Bydd The Supreme Dreamgirls a Chôr Ysgol Emmanuel yn ymddangos yn ogystal â William Hicks a fydd yn perfformio caneuon mwyaf poblogaidd Barry White, gyda rhaglen amrywiol o gerddoriaeth i’r gynulleidfa ei mwynhau.

Dywedodd Jamie Groves, Rheolwr Gyfarwyddwr Hamdden Sir Ddinbych Cyf: “Rydym yn falch iawn o groesawu cyngerdd blynyddol y Pops Nadolig yn ôl i Theatr Pafiliwn y Rhyl am yr ail flwyddyn yn olynol. Mae’n wych gallu cynnig digwyddiad arbennig am ddim i drigolion lleol yn Sir Ddinbych yn enwedig adeg y Nadolig, pan all fod yn gyfnod anodd i lawer o deuluoedd. Rydym felly yn annog y rhai sydd eisiau dod i ffonio ein swyddfa docynnau i fachu eu tocynnau cyn gynted â phosibl i sicrhau eu seddi yn Theatr y Pafiliwn eleni. Gwnewch y penwythnos olaf ym mis Tachwedd yn ddechrau arbennig i’ch dathliadau Nadolig gyda’r teulu i gyd, gyda’r digwyddiad goleuadau Nadolig yn Y Rhyl ar ddydd Sadwrn Tachwedd 26ain a’n cyngerdd Pops Nadolig ar ddydd Sul Tachwedd 27ain, y ddau ddigwyddiad am ddim i’w mynychu, felly gwnewch y mwyaf ohono! ”

Dywedodd Maer y Rhyl, y Cynghorydd Diane King: “Mae’r Pops Nadolig yn argoeli i fod yn ddigwyddiad arall o ddisgleirdeb a llawenydd - a dyna beth sy'n digwydd! Nid yn unig mae gennym deyrnged wych Barry White yn William Hicks, ond mae gennym hefyd The Supreme Dreamgirls a Chôr Ysgol Emmanuel Y Rhyl, yr un mor dalentog. Rhyngddynt, mae’r Pops Nadolig yn argyhoeddi i fod yn noson i’w chofio, ac mae Cyngor Tref y Rhyl yn falch iawn o gefnogi’r digwyddiad rhad ac am ddim hwn unwaith eto.”

Bydd y drysau'n agor o 4pm, i roi’r cyfle i’r gynulleidfa cael diod o 1891 cyn i'r cyngerdd ddechrau am 5pm.

I archebu eich tocynnau Pops Nadolig 2022, ffoniwch Swyddfa Docynnau Theatr Pafiliwn y Rhyl ar 01745 330000.



